

Cofion a Chyfarchion

Yr ydym yn parhau i gofio yn ein gweddiâu am Gwyneth Williams (Llanfair) sydd erbyn hyn yn cael gofal yn yr Inffyrmar. Anfonwn ein cofion ati gan ofyn i Dduw ei hamgylchynu gyda thrugaredd a daioni. Bu Osian Williams (Llanefydd) yn Ysbyty Glan Clwyd am rai dyddiau yn dilyn anffawd hefyd. Gobeithio dy fod yn gwella Osian, ac y cei di a Dwysan ddiwrnod arbennig ar achlysur eich priodas ddydd Sadwrn. Dymunwn fendithion lu i chi i'r dyfodol.

Detholiadau

Os hoffech gael copi o Raglen Cymanfaoedd Canu 2017-2018 (Hen Nodiant a/neu Sol-ffa), rhowch eich archeb i arolygwr eich Ysgol Sul **HEDDIW (MEDI 17^{eg})** os gwelwch yn dda. Pris: £1.40. (Arolygwyr: *Wnewch chi roi eich archeb i Mair erbyn dydd Llun, os gwelwch yn dda?*)

SUL ARBENNIG I'R FRO

I DDATHLU 450 MLWYDDIANT CYFIEITHU'R TESTAMENT NEWYDD I'R GYMRAEG yng nghwmni Arfon Jones, Caerdydd fu'n bennaf gyfrifol am gyfieithu beibl.net.

Yn y bore, bydd oedfa i'r teulu cyfan yn Llansannan am 10.30, ac yna bydd mochyn wedi ei rostio a phwddin i bawb yn y Ganolfan i ginio, a chwaraeon i'r plant i ddilyn. Ar ôl cinio, bydd cyfle i fynd draw i Dŷ Mawr Wybrnant (ger Penmachno) lle ganwyd yr Esgob William Morgan, sef cyfieithydd cyntaf y Beibl cyfan i'r Gymraeg. I gloi dathliadau'r dydd, bydd oedfa yn Llansannan am 6.00.

Fel y gallwn drefnu ar eich cyfer, plis wnewch chi roi eich enw i Mair (manyllion cyswllt dros y dudalen) **erbyn dydd Sul nesaf, Medi 24ain fan bellaf** os ydych am aros i ginio ac/neu am ddod i Dŷ Mawr Wybrnant.

Pris y cinio: £4 i oedolion a £2 i blant ysgol cynradd.

Pris mynediad i Dŷ Mawr Wybrnant: £2.50 i oedolion a £1 i blant.

I ddod

- **CYFARFOD GWOBROWYO FFYDDLONIAID YR YSGOL SUL A'R FEDAL GEE** dydd Iau, Medi 28ain yng Nghapel Emaus (Penuel), Ffordd y Cariadon, Bangor am 2.30.
- **DARLITH: DATHLU 450 MLYNEDD ERS CYHOEDDI Y TESTAMENT NEWYDD CYMRAEG GAN WILLIAM SALESBURY** – Fel rhan o'r dathliadau, cynhelir darlith wedi ei threfnu gan Gymdeithas Hanes Annibynwyr Cymru yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan nos Fercher, Hydref 4ydd am 7.30. Traddodir y ddarlith gan y Dr E. Gwynn Mathews. Croeso cynnes i bawb.
- **OEDFA DIOLCHGARWCH CAPEL Y GROES** am 7.00 nos Wener, Hydref 20ain gyda'r Parch. Ddr Andras Iago yn pregethu. Croeso i bawb.



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 17^{eg} Medi 2017

Darlleniad y Dydd

Luc 9:1-6

(BCND tud.74 / BCN tud.68)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

'Codaf fy llygaid i'r mynyddoedd; o ble y daw cymorth i mi? Daw fy nghymorth oddi wrth yr Arglwydd, creawdwr nefoedd a daear.' Gyda'r geiriau cyfarwydd yna mae'r Salm ydd yn dechrau Salm 121, ond maent hefyd yn gyfarwyddyd gwych i bawb ohonom ar gychwyn Sul arall. Os ydy pethau'n dda arnom neu ddim, gweddiwn ar i'r Ysbryd Glân ein harwain i sylweddoli mai creawdwr yr holl greadigaeth sy'n rhoi cymorth i'w bobl – a'i fod wedi mynd i'r eithaf i wneud hynny wrth i'r Arglwydd Iesu wisgo cnawd a dod i'n plith.

Dros yr wythnosau diwethaf cafodd effaith y stormydd enbyd yng ngogledd a chanolbarth America sylw helaeth ar y newyddion. Gydag un corwynt ar ôl y llall yn chwipio trwy Fôr y Caribî dinistriwyd eiddo a chartrefi miliynau o bobl. Y penwythnos diwethaf, roedd yr arbenigwyr tywydd yn darogan y byddai corwynt Irma yn taro talaith Florida yn yr Unol Daleithiau gydag adroddiadau fod rhwng 5 a 7 miliwn o bobl wedi cael eu hannog i adael eu cartrefi a dianc i ddiogelwch. Beth fyddai'n hymateb ni yn y fath sefyllfa tybed? Mae'n debyg y byddem yn dilyn y cyngor a roir pan mae larwm tân yn canu mewn adeiladau cyhoeddus – gadewch bopeth ac ewch allan cyn gynted â phosib. Dyna sut ydym ni'n tueddu i ymateb mewn argyfwng – sylweddoli beth sy'n bwysig a chymryd y pethau angenrheidiol yn unig.

Dyma'r pwyslais a welwn yn ein darlleniad o Efengyl Luc hefyd wrth i Iesu anfon ei ddisgyblion allan ar daith i ledaenu ei weinidogaeth Ef ar draws Galilea. Roedd y disgyblion i fynd gydag awdurdod Iesu i ddelio ag afiechyd, ysbrydion dieflig ac i gyhoeddi'r newydd da ym mhob man. A chan eu bod yn gweinidogaethu trwy nerth Crist, mae'n naturiol eu bod hefyd i fynd â'r hyn oedd yn angenrheidiol yn unig ar eu taith, i sicrhau eu bod yn dibynnu'n llwyr ar Dduw, ac nid ar eu galluoedd neu eu meddiannau eu hunain. Oherwydd nid cyflwyno gwaith didrafferth i'w ddisgyblion y mae Iesu yma gan ei fod hefyd yn codi'r posibilrwydd real y byddai pobl yn eu gwrthod oherwydd cynnwys eu neges a phwy a'u hanfonodd.

Erbyn Luc 9:10 gwelwn yr apostolion yn dychwelyd at Iesu gan roi adborth iddo o'r hyn a wnaethant. Onid yw hynny'n wers bwysig i Gristnogion heddiw hefyd, boed mewn cenhadaeth neu fywyd yn gyffredinol? Rydym i fyw ein bywydau o dan awdurdod, cyfarwyddyd, a thrwy nerth yr Un a'n carodd, ond gan wneud yn siŵr fod ein perthynas glos gydag Iesu yn parhau. Sut allwn ni wneud hyn? Trwy weddi, darllen ei Air a chwarae'n rhan fel aelodau o'r eglwys, gan ddiolch fod Iesu wrth roi comisiwn i'w ddisgyblion wedi eu hatgoffa: "Ac yn awr, yr wyf fi gyda chwi yn wastad hyd ddiwedd amser." (Mathew 28:20)

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled

Rhodri

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 17^{eg} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Celfyn Williams, a bydd Rhodri yn pregethu.
- Mercher – 20^{fed} ➤ **Cymdeithas Chwirydd Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** – Cyfarfod tymor yr Hydref yng Nghapel Trefnant am 7.00. Y wraig wadd fydd Mrs Carys Davies ac fe fydd yn cyflwyno “Llwybr Mari a’n Llwybr Ni – sut fywyd oedd gan ferch ifanc o Gristion ar ddechrau’r 19eg ganrif, ynghyd â thystiolaethau gan ferched heddiw”.
- Iau – 21^{ain} ➤ **Cyfarfod Plant Llanefydd** o 3.15-4.30.
➤ **Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** yn cyfarfod yng Nghapel Clawddnewydd. Pwyllgor Gwaith am 4.30, a Gwaith yr Henaduriaeth am 6.00 a Gwasanaeth Cymun i ddilyn.
- Gwener – 22^{ain} ➤ **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc bl.7-9 yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.00.
➤ **“Cymru i’r Byd”** – Ymgynffwrdd o gân, storiâu a’r gair llafar yn ein cysylltu i dreftadaeth gyfoethog gyda’r artist geiriau Dai Woolridge, Cath Woolridge a Sow Acapella, Christine Daniel (Pennaeth Cymdeithas y Beibl yng Nghymru), ac Arfon Jones (beibl.net) yn Eglwys Gloddaeth, Llandudno LL30 2DA am 7.30. Croeso i bawb.
- Gwen - Sadwrn – 22^{ain}-23^{ain} ➤ **Aduniad Llanw** yng Ngholeg y Bala. Cysylltwch â’r Coleg am fwy o fanylion ac i archebu lle: 01678 520565.
- Sul nesaf – 24^{ain} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Eryl Davies, a bydd Rhodri yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 17^{eg} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun i’r daith yn Llanfair am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Sul nesaf – 24^{ain} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i’r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma – 17^{eg} ➤ Bydd y Parch. David Owens yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 a bydd Ysgol Sul yn Groes i’r plant a’r oedolion am 2.00.
- Sul nesaf – 24^{ain} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun i’r daith yn Henllan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00.

Cyhoeddiadau

Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 17^{eg} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreded. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.
- Mercher – 20^{fed} ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion Jones, Y Gorlan (870656) **HEDDIW**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 24^{ain} ➤ Bydd y Parch. Goronwy Prys Owen yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreded. Cynhelir Ysgol Sul i’r oedolion am 11.10.
➤ Ni fydd oedfa yn Nantglyn.

Saron a Pheniel

- Sul yma – 17^{eg} ➤ Bydd Mr Dafydd Timothy yn arwain oedfa i’r daith yn Saron am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.
- Llun – 18^{fed} ➤ Clwb Ysgol Sul Saron o 3.15-4.15 yn Festri Capel Saron.
- Sul nesaf – 24^{ain} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun i’r daith ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 17^{eg} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i’r daith yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Sul nesaf – 24^{ain} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i’r daith yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291
Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com ☎ 01745 582644 📞 07849 591163
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536
Cyhoeddiadau i’w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.

Eglwys Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio’n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.

Darlleniad Wythnos Nesaf

2 Cronici 34:29-32 (BCND tud.425 / BCN tud.389)